



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS IAU 7 MEDI 2017 AM 7.30 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD MEDI 2017

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.

PRESENNOL: Cyng. Gwilym Jenkins (Cadeirydd), Cyng Catherine Hughes, Karine Davies, Ann Jones, Arwel Jones, Alun Owen, June Owens a Cyng Gary Rees

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng David Bennett & Cyng Manon Wyn James

3. **MATERION PERSONOL**

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Clerc ar ei chyflwyniad ym myd rasio harnais yn ddiweddar.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 14 GORFFENNAF 2017**

Cynnig: Cyng Alun Owen

Eilio: Cyng June Owens

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

6.1 Ni dderbyniwyd sticeri'r Cyngor Tref oddi wrth Nerys Williams hyd yma.

6.2 Trosglwyddwyd ffurflenni gwneud arolwg ar y parc i Cyng June Owens.

6.3 Mr Adrian Davies wedi ail osod y rwbwr o dan y cylchfan newydd yn y parc yn dderbyniol ond ni lenwyd y gofod rhwng y matiau eraill. Clerc i ymchwilio mewn i brynu rwbwr yn TTS Tregaron.

6.4 Cytunwyd i gynnig paned o de a chacennau ar ddechrau'r sesiwn hyfforddi ar y côd ymddygiad ar 18 Medi 2017. Diolchwyd i Cyng June Owens am gynnig gwneud y cacennau. Cytunwyd i dalu cyfraniad o'r costau llogi'r sgrin wen a'r neuadd goffa.

6.5 Clerc wedi derbyn copi o'r cyfrinair oddi wrth Gwmni Technoleg Taliesin, Clerc a Cyng Rhydian Wilson i gwrdd i ddiweddar'u'r gwefan.

6.6 Soniwyd fod Mr Dylan Jones, Haven, Penrodyn wedi torri'r clawdd nol ar bwys Trefelin gan fod cyflwr y clawdd wedi mynd yn ofnadwy. Mr Roger Turner wedi ymweld â Trefelin ac wedi datgymalu'r llechi rhydd.

6.7 Mae pethau wedi symud ymlaen yn gyflym iawn erbyn hyn efo trosglwyddo'r Ganolfan Hamdden i berchnogaeth Y Cwmni newydd, gobeithio trosglwyddo'r awenau erbyn 1af Hydref 2017.

6.8 Dim gweithrediad ar dorri'r clawdd ar y dde lawr am y ffordd cyn dod i Fferm Argoed.

6.9 Cloddiau ar hyd 'Gypsy Lane' angen ei thorri nol.

6.10 Dim i'w adrodd gan Cyng Catherine Hughes am brisiau o'r Cyngor Sir Ceredigion i adnewyddu'r arwyddion glas sy'n dod i mewn i Dregaron.

6.11 Dim i'w adrodd gan Cyng Catherine Hughes am dorri'r coed tu cefn i'r hen Gapel Wesley.

- 6.12 Mr Noel Jones yn hapus i ofalu am dyfiant y coed sydd yn Maesyrawel.
- 6.13 Cyng Alun Owen i roi'r cynnig terfynol i Mr Jason Hockenhul i gario allan y gwaith o ddodi mainc yn y wal sy'n mynd fyny Blaencaron.
- 6.14 Derbyniwyd diolch oddi wrth Cyng Ann Jones am y rhodd ariannol a dderbyniodd y Clwb Rasys Trotian Tregaron eleni ond o dan amgylchiadau tywydd bu rhaid canslo'r cyfarfod a soniwyd ni fyddai'r Clwb Rasys yn rhoi cais ymlaen yn 2018 am gymorth ariannol.

7. **CYFRIFON**

- 7.1 P R Methuen (Blodau Henry Richard) £14.00
- 7.2 Cyflog Glanhawr (2 fis) £378.10
- 7.3 Cyflog Clerc (2 fis) £475.20
- 7.4 Ad-daliad TAW wedi'u dderbyn £1,247.08
- 7.5 Balans yn y banc £22,115.68

Cynnig: Cyng Ann Jones

Eilio: Cyng Catherine Hughes

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Parhau i weithio oddi amgylch y dref yn glanhau a chymenu yn ôl yr angen. Gofynnir i'r Clerc gysylltu â Noel i dorri'r borfa a glanhau wrth y glwyd gefn sy'n troi allan o'r Eglwys ac yn mynd lawr am Doldre. Hefyd gofynnir iddo lanhau mewn yn y parc a'r twnnel plant ac i wagio'r biniau yn ôl yr angen. Cytunwyd iddo barhau yn ôl yr angen dros y gaeaf. Gofynnir i'r Clerc i gysylltu â Mr Gerwyn Jones i ofyn beth yw'r sefyllfa a'r contract ynglŷn â glanhau'r palmentydd o Eira dros y Gaeaf.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

- 11.1 Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu fod cais o dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i adio Llwybrau Ceffyl i'r Map Diffiniol ger Bryn Du Tregaron yn mynd tu blaen i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion yn Siambr y Cyngor, Penmorfa ar 5ed o Fedi 2017.
- 11.2 Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Cyng Catherine Hughes yn annog pob Cyngor Tref a Chymuned i gwblhau'r cwrs e-ddysgu Cadw Gofalwyr mewn Cof ar-lein trwy gysylltu â Martin Gillard ar martin.gillard@ceredigion.gov.uk
- 11.3 Manylion am gyfnod ymgynghori ynghylch cau Cartref Gofal Preswyl Bodlondeb, Penparcau i law, gan nodi fod y cyfnod ymgynghori wedi'u hymestyn o 3 Gorffennaf hyd at 25 Medi 2017.

DATGAN DIDDORDEB: CYNG CATHERINE HUGHES

12. **UN LLAIS CYMRU**

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn 30 Medi 2017 am 9.30 yb yn Llanelwedd.

13. **GOHEBIAETH**

- 13.1 Derbyniwyd nodyn o ddiolch oddi wrth y canlynol am y rhodd ariannol a dderbyniwyd yn ddiweddar:- CFFi Tregaron, Pwyllgor Clwb Cinio Cylch Tregaron, Pwyllgor Tregaroc a Whilen y Porthmyn, Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Tregaron.
- 13.2 Adroddiad cwmni Zurich wedi'u dderbyn am y parc. Tynnwyd ein sylw at ddiffygion oedd ar y cylchfan newydd a'r camel. Cyng Arwel Jones, Gary Rees a Cyng Gwilym Jenkins i wneud arolwg gweledog ar yr eitem mewn cwestiwn ac adrodd nol i'r clerch gael cysylltu â chwmni aswiriant Zurich.

CADEIRYDD

14. **YMGYNGHORI (Karine Davies)**

Trafodwyd yn fras, y papur ymgynghori am 'Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl' a gofynnir am eglurhad o'r broses ymateb iddynt. Mae'r clerc yn ei chylchredeg drwy e-bost i'r Cynghorwyr, copiâu papur i'r rhai sydd ddim ar e-byst, ac os oes yna faterion angen ei thrafod gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb gysylltu â'r Cadeirydd/Clerc i'w ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf neu gynnal cyfarfod brys i'w trafod/ymateb iddynt. Soniwyd bod croeso i Gynghorwyr ymateb yn bersonol i'r papurau ymgynghori yn uniongyrchol.

15. **GWASANAETHAU YR HENOED YN ARDAL TREGARON (Karine Davies)**

DATGAN DIDDORDEB: Cyng Catherine Hughes

Trafodwyd prosiect Cylch Caron a soniwyd am y pryderon oedd yng Ngheredigion, gan gyfeirio yn bennaf at Dregaron, nad oedd yna ddigon o le yn mynd i fod wedi'u glustnodi ar gyfer y ganolfan dydd fel sydd eisoes wedi'u leoli yng Nghartref Bryntrion. Cytunwyd i wahodd Ms Sue Darnbrook i'r cyfarfod nesaf i drafod ag esbonio'r cynlluniau Cylch Caron yn fwy manwl. Clerc i gysylltu â hi.

14. **UNRHYW FATER ARALL**

14.1 Derbyniwyd cais oddi wrth bwyllgor y Carnifal i gael cornel o'r sied y mart i gadw deunydd y Carnifal, dim gwrthwynebiad.

DATGAN DIDDORDEB: - Cyng Catherine Hughes

14.2 Gan fod Mr Doug Daniels wedi ymddeol fel Cynghorydd ers sawl blwyddyn bellach, mae enw Mr Daniels lawr fel pwynt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru, angen penodi swyddog newydd i'r swydd yma. I'w ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

14.3 Cyng Catherine Hughes wedi derbyn cadarnhad fod y coed tu cefn i Ysgol Henry Richard yn hollol saff tra bod y gwaith adeiladu yn cael eu gwneud, ac mae wedi bod yn siarad efo'r bobl berthnasol yn tai Maesamlwg.

14.4 Angen torri'r coed mawr uchel nol ar y ffordd heibio Tanrallt lan am Nantcoy, Ffordd Abergwesyn. Clerc i gysylltu â Mr Simon Crowe i gario allan y gwaith gan fod y cloddiau yn eiddo iddo fe.

14.5 Clerc i arddangos y cofnodion ar yr hysbysfwrdd ar y sgwâr fawr.

14.6 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cyng Karine Davies am fethu mynychu'r hyfforddiant ar y Côd ymddygiad a gynhelir nos Lun 18 Medi 2017 am 7yh

14.7 Soniwyd fod y plot o ddaear drws nesaf i siop trin gwallt Arwyna wedi mynd i edrych yn anniben ofnadwy.

14.8 Angen i'r clerc gysylltu â'r Cyngor sir i ofyn iddynt symud y bin halen/grit sydd eisoes wedi torri a chwympo lawr dros y dibyn i'r cae, ac o ran yr amgylchedd mae angen iddynt fynd a'r bin oddi yno. Hefyd mae angen newid y biben concret sydd ar dop y rhiw sy'n mynd lawr am Esgairffrwd gan fod y biben ar agor lle mae'r glaw yn gallu mynd ar yr halen/grit.

14.9 Soniwyd fod nifer o gerbydau yn cael ei chrafu ar hyd Stryd y Capel, Tregaron.

14.10 Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i'w hysbysu fod eisiau iddynt glirio'r dwr sy'n cronni ar y gyffordd sy'n dod allan o'r ffordd lan am Tanrallt a Nantcoy Tregaron, sy'n dod lawr Rhiw dywyll am Llettyfeurig, bydd hyn yn gallu achosi'r dwr i rewi yn ystod y gaeaf a bod yn beryglus.